# Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

**2023 dsc 2**

*Gorfodi*

## 12 Pwerau mynediad: atodol

(1) Caiff swyddog awdurdodedig awdurdod lleol sy'n mynd i fangre o dan adran 9, 10 neu 11, neu yn rhinwedd yr adrannau hynny, fynd ag unrhyw bersonau eraill ac unrhyw gyfarpar y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn briodol.

(2) Mae'r pwerau mynediad sy'n arferadwy o dan adran 9, 10 neu 11, neu yn rhinwedd yr adrannau hynny, yn gymwys i gerbyd fel pe bai'n fangre.

(3) Os yw meddiannydd mangre yn bresennol ar yr adeg y mae'r swyddog awdurdodedig yn ceisio gweithredu gwarant o dan adran 10 neu 11 a mynd i'r fangre, rhaid i'r swyddog—

- (a) hysbysu'r meddiannydd ynghylch enw'r swyddog;
- (b) cyflwyno tystiolaeth ddogfennol i'r meddiannydd o awdurdodiad y swyddog;
- (c) cyflenwi copi o'r warant i'r meddiannydd.

(4) Os nad yw mangre y mae swyddog awdurdodedig wedi ei awdurdodi i fynd iddi gan warant o dan adran 10 neu 11 wedi ei meddiannu, neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, yna wrth adael y fangre rhaid i'r swyddog ei gadael wedi ei diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad anawdurdodedig ag yr oedd pan aeth y swyddog iddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 22(2)**

**I2** A. 12 mewn grym ar 30.10.2023 gan O.S. 2023/1149, **ergl. 2(j)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023, Adran 12.